



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Stopio cosbi corfforol yng Nghymru

Gwybodaeth i'r sector cyfreithiol

Mae Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 (y Ddeddf) yn gwneud cosbi plant yn gorfforol yn anghyfreithlon yng Nghymru.

Fel aelod o'r proffesiwn cyfreithiol, dyma beth sydd angen i chi ei wybod am y newid yn y gyfraith.

Pam fod y newid yn y gyfraith yn bwysig?

Amcan cyffredinol y Ddeddf yw diogelu hawliau plant drwy wahardd cosbi plant yn gorfforol gan rieni a'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis. Mae'n golygu bod gan blant yr un amddiffyniad rhag ymosodiad ag oedolion, ac yn gwneud y gyfraith yn gliriach fel ei bod yn haws i blant, rhieni, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd ei deall.

Bwriedir i'r Ddeddf, ar y cyd ag ymgyrch i godi ymwybyddiaeth a chefnogaeth i rieni, arwain at ostyngiad pellach yn y defnydd o gosb gorfforol ar blant yng Nghymru a goddefgarwch ohono. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod ymchwil yn awgrymu y gallai unrhyw fath o gosb gorfforol fod yn niweidiol i blant.

A yw'r newid yn y gyfraith yn berthnasol i bawb yng Nghymru?

Ydy, mae'n berthnasol i bawb – rhieni neu unrhyw un sy'n gyfrifol am blentyn tra bo'r rhiant yn absennol (in loco parentis). Os bydd unigolyn yn cosbi plentyn yn gorfforol, byddant yn torri'r gyfraith a gellid eu cyhuddo o ymosodiad cyffredin, a/neu droseddau eraill gan ddibynnu ar amgylchiadau'r achos.

Ac fel gyda chyfreithiau eraill, mae'n berthnasol i ymwelwyr â Chymru hefyd.



Beth sydd wedi newid?

Daeth adran 1 o'r Ddeddf i rym ar 21 Mawrth 2022. Mae wedi diddymu'r amddiffyniad cosb resymol mewn cyfraith gyffredin fel na ellir ei ddefnyddio yng Nghymru mwyach pan fo plentyn wedi'i gosbi'n gorfforol. Y diffiniad o gosb gorfforol yn y Ddeddf yw unrhyw guro a wneir fel cosb i blentyn.

Cyn 21 Mawrth 2022, roedd rhieni neu'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis yn gallu defnyddio'r amddiffyniad o gosb resymol mewn perthynas â'r gyfraith droseddol a'r gyfraith sifil.

Mae dileu'r amddiffyniad yn golygu na fydd unrhyw un yng Nghymru yn gallu defnyddio'r amddiffyniad o gosb resymol fel amddiffyniad i ymosodiad cyffredin ar blentyn.

Mae'r amddiffyniad o gosb resymol yn parhau i fod ar gael yn Lloegr. Dyma'r tro cyntaf i'r gyfraith droseddol graidd amrywio rhwng Cymru a Lloegr.

Stopio Cosbi
Corfforol

Ending Physical
Punishment



